



<b>Teitl:</b> <b>Title:</b>	Polisi Ffioedd Dysgu Tuition Fees Policy
<b>Fersiwn:</b> <b>Version</b>	3
<b>I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol?</b> <b>Who does this Policy Relate to?</b>	Myfyrwyr / Staff / Myfyrwyr a Staff / Arall (rhowch fanylion) Students

#### Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity

Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link:	<a href="#">Polisi Ffioedd Hyfforddi EIA Cam 1</a> <a href="#">Tuition Fees Policy EIA Stage 1</a>
<i>Effaith ar yr Iaith Gymraeg</i>  <i>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.</i>	<i>Welsh Language Impact</i>  An impact assessment has been carried out on this policy to consider its effect on the Welsh Language in accordance with the Welsh Language Standards (94-104) and the Welsh Language (Wales) Measure 2011.

#### Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval

<b>Perchennog y Ddogfen:</b> <b>Document Owner:</b>	Cyfarwyddwr Cyllid Director of Finance		
<b>Ymgynghoriad / Consultation:</b>			
<b>Dyddiad cymeradwyo / Date Approved</b>	Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group	<i>Enw'r Grŵp a'r Dyddiad / Name of group &amp; date</i>	
	Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee:	19/05/21	
	Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees:	Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee:	-
		Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee	-
	Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee:	2021	

	Corff Llywodraethu / Governing Body:	23/06/21
<b>Dyddiad Adolygu: Review Date:</b>	16/06/24	

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r [Ffurflen Cais Cyfieithu](#)  
Send approved document for Translation using the [Translation Request Form](#)

Rhifwch bob adran a pharagraff  
Please number each section and paragraph

## **Tabl Cynnwys**

### **Polisi Ffioedd Dysgu**

1. Cwmpas	3
2. Datganiadau Polisi	3
3. Egwyddorion Cyffredinol	3
4. Dysgwyr Addysg Bellach	4
5. Dileu Ffioedd	4
6. Rhandaliadau	4
7. Ad-daliadau	5
8. Dysgwyr Addysg Uwch	5
9. Dulliau Talu	5

## **1. Cwmpas**

1.1 Yn unol â Deddf Dysgu a Sgiliau 2002 (y Ddeddf), mae gan y Coleg ddyletswydd drwy Lywodraeth Cymru (LIC) i sicrhau:

1.1.1 Darparu cyfleusterau priodol ar gyfer: addysg (ac eithrio addysg uwch) sy'n addas i ofynion personau sydd dros oedran gorfodol ond nad ydynt wedi cyrraedd 19 oed

1.1.2 Darparu cyfleusterau rhesymol ar gyfer: addysg (ac eithrio addysg uwch) sy'n addas i ofynion personau sydd wedi cyrraedd 19 oed a hyfforddiant cysylltiedig ac amser hamdden wedi'i drefnu fel y'u diffinnir yn y Ddeddf.

1.2 Wrth wneud hynny, bydd y coleg yn ceisio darparu rhestr o ffioedd a chonresiynau a fydd yn annog cyfranogiad a chynhwysiant mewn addysg a hyfforddiant, tra'n sicrhau bod y coleg yn diogelu ei asedau ac yn gwneud y defnydd gorau o arian cyhoeddus, ac yn sicrhau diogelwch ariannol.

1.3 Bydd y polisi hefyd yn cynorthwyo mewn cyrsiau unigol, a'n darpariaeth gyffredinol, gan gynnal hyfywedd ariannol.

1.4 Mae gofyn i'r polisi ffioedd hwn sicrhau bod dull gweithredu teg a chyson yn cael ei fabwysiadu i godi ffioedd ar ddysgwyr yng Ngholeg Cambria.

## **2. Datganiadau Polisi**

2.1 Bydd y Polisi Ffioedd Dysgu ac Ad-daliadau yn hysbysu staff; myfyrwyr ac unrhyw randdeiliad arall o sut mae ffioedd y cyrsiau ac ad-daliadau yn cael eu rheoli a'u darparu. Bydd yn ffordd o gyfleu sut mae nodau cynlluniau strategol a gweithredol y Coleg yn ymwneud â thaliadau ffioedd. Mae'r Coleg yn defnyddio ei ganfyddiadau gwerthuso ar gyfer cynllunio strategol yn y dyfodol a chynllunio gwelliannau parhaus ar gyfer codi ffioedd a gweinyddu.

## **3. Egwyddorion Cyffredinol**

3.1 Bydd ffioedd cyrsiau yn cael eu hadolygu bob blwyddyn ac ar gael ar wefan y Coleg. Codir ffioedd cyrsiau am bob blwyddyn astudio o fewn yn y sefydliad.

3.2 Bydd y Coleg yn ymdrechu i redeg bob dosbarth ar amser ac yn ôl yr amserlen. Yn achos digwyddiad naturiol neu drydedd parti lle mae angen canslo dosbarthiadau er mwyn sicrhau diogelwch myfyrwyr a staff, ni roddir ad-daliadau.

3.3 Os bydd y Coleg yn canslo cwrs, bydd ad-daliadau llawn ar gael.

- 3.4 Rhaid i bob dysgwr sydd o dan 16 oed ar 1 Awst yn y flwyddyn academaidd gael eu cyfeirio at aelod o Dîm Cyfarwyddiaeth y Cwricwlwm cyn trafod cofrestru gyda'r dysgwr.
- 3.5 Rhaid talu ffioedd wrth gofrestru oni bai bod y Coleg yn cytuno fel arall. Bydd unrhyw ddysgwr sy'n cofrestru ar gwrs coleg ac yna'n methu â gwneud taliad yn cael ei wahardd o'r cwrs.
- 3.6 Gellir talu ffioedd drwy arian parod, siec, cardiau debyd/credyd, anfoneb cyflogwr (wedi'i ategu gan lythyr awdurdodi) a Chyllid Myfyrwyr Cymru/Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (CMC/CBM) ar ôl derbyn hysbysiad ariannol myfyriwr.
- 3.7 Cesglir ffioedd ar ddechrau'r flwyddyn academaidd ond byddant yn parhau yn ôl yr angen i ystyried gwahanol amseroedd cychwyn a chyrсияu lle gall myfyrwyr ymuno â'r cwrs a'i adael unrhyw bryd yn ôl y galw. Ni fydd staff addysgu yn casglu ffioedd a thrin arian, ond bydd disgwyl iddynt roi gwybodaeth i ddysgwyr mewn dosbarthiadau ynglŷn â ffioedd.
- 3.8 Ni ellir trosglwyddo ffioedd/blaendaliadau cwrs yn awtomatig o un tymor/blwyddyn i'r llall neu o un person i'r llall.
- 3.9 Mae'r coleg yn cadw'r hawl i drosglwyddo unrhyw ddyled heb ei thalu i asiantaeth casglu dyledion trydydd parti.
- 3.10 Bydd cyrsiau Cymraeg i Oedolion a ddarperir gan y Coleg ar ran y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn dilyn egwyddorion *Polisi Ffioedd a Gostyngiadau* y Ganolfan Genedlaethol.

#### **4. Dysgwyr Addysg Bellach**

- 4.1 Ni chaniateir i Sefydliadau Addysg Bellach godi ffioedd dysgu ar ddysgwyr o dan 19 oed ar gyrsiau a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae dysgwyr rhan-amser o dan 19 oed yn gymwys i dalu ffioedd cofrestru ac arholiadau.

#### **5. Dileu Ffioedd**

- 5.1 Ni chodir ffioedd ar ddysgwyr Addysg Bellach Coleg Cambria llawn amser sy'n mynychu cwrs TGAU Mathemateg neu Saesneg.
- 5.2 Yn achos unrhyw gwrs rhan-amser addysg bellach ychwanegol arall, oni bai bod y cwrs rhan-amser yn rhan o'r Rhaglen Meysydd Dysgu llawn amser, gellir codi ffioedd.
- 5.3 Ni chodir ffioedd dysgu ar ddysgwyr o dan 19 oed ond codir unrhyw ffioedd ychwanegol arnynt. Gellir dod o hyd i wybodaeth am gostau ychwanegol yn [www.cambria.ac.uk](http://www.cambria.ac.uk)
- 5.4 Efallai y bydd gan ddysgwyr, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau ac ar y cwrs, hawl i gael Hepgoriad Ffioedd. Mae rhagor o fanylion am gymhwysedd ar gyfer Hepgoriadau Ffioedd ar gael yn [www.cambria.ac.uk](http://www.cambria.ac.uk)
- 5.5 Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol mai dim ond yn erbyn Ffioedd Dysgu y mae Hepgoriadau Ffioedd yn berthnasol. Mae'r holl ffioedd eraill yn parhau i fod yn daladwy.

- 5.6 NID yw hepgoriadau ffioedd yn berthnasol i gyrsiau masnachol dynodedig na chysiau ffioedd uwch lle mae'r dysgwyr dros 19 oed.
- 5.7 Efallai y bydd gan y dysgwyr hynny nad ydynt yn gymwys i gael Hepgoriad Ffioedd hawl o hyd i gael gafael ar ddulliau eraill o Gymorth Ariannol. Ceir manylion am hyn yn [www.cambria.ac.uk](http://www.cambria.ac.uk)
- 5.8 Yn gyffredinol, mae ffioedd yn daladwy ar ddechrau pob blwyddyn astudio. Nodir eithriadau i'r rheol gyffredinol hon yn y prospectws.
- 5.9 Bydd angen tystiolaeth ffurfiol o gymhwysedd ar gyfer ffioedd consesiynol wrth gofrestru. Nid oes gan rai cyrsiau gyfraddau consesiynol – dangosir yr eithriadau hyn yng nghanllaw'r cyrsiau.

## **6. Rhandaliadau**

- 6.1 Mae ffioedd cyrsiau dros £400 yn gymwys ar gyfer rhandaliadau – mae'r dysgwyr yn talu 25% wrth gofrestru a thri thaliad debyd uniongyrchol dilynol o 25%.
- 6.2 Os yw hyd y cwrs yn 10 wythnos neu lai, rhaid i fyfyrwyr dalu'n llawn wrth gofrestru.
- 6.3 Rhaid i unrhyw gynlluniau taliadau gohiriedig gael eu cytuno a'u llofnodi gan y myfyriwr a staff y coleg cyn cofrestru a dechrau dosbarthiadau.
- 6.4 Nid yw rhandaliadau ar gael i ddysgwyr sydd wedi'u tynnu'n ôl am beidio â thalu ffioedd.

## **7. Ad-daliadau**

- 7.1 Byddai gan ddysgwyr sy'n tynnu'n ôl o fewn 4 wythnos gyntaf cwrs 30+ wythnos hawl i ad-daliad namyn ffi weinyddol a chyfran o'r costau addysgu. Bydd gofyn i'r dysgwyr hefyd dalu ffioedd cofrestru/arholiad os yw'r coleg eisoes wedi talu.
- 7.2 Yn achos gyfer cyrsiau llai na 30 wythnos, ni roddir ad-daliad awtomatig.
- 7.3 Codir ffi weinyddol o £50 am bob ad-daliad wedi'i brosesu. Dylai'r adran Gyllid dderbyn ceisiadau am ad-daliadau yn ddim hwyrach na 5 wythnos ar ôl dyddiad dechrau'r cwrs. Yn achos dysgwyr sy'n tynnu'n ôl ar ôl 4 wythnos, ni roddir ad-daliadau. Bydd pob ad-daliad yn cael ei wneud drwy siec neu BACS a gall gymryd hyd at bythefnos. Bydd derbynneb ddilys yn ofynnol.

## **8. Dysgwyr Addysg Uwch**

- 8.1 Yn achos cyrsiau Addysg Uwch sy'n gweithredu fel rhan o gytundeb rhyddfrait, bydd rheoliadau ariannol y sefydliad partner mewn grym.
- 8.2 Codir ffioedd dysgu blynyddol ar ddysgwyr. Rhaid i ddysgwyr gytuno ar y dull o dalu ffioedd dysgu wrth gofrestru, pan fydd y coleg yn cadarnhau'r gweithdrefnau a'r amserlenni angenrheidiol ar gyfer talu. Ni ellir dileu talu ffioedd dysgwyr Addysg Uwch.

## **9. Dulliau Talu**

### **9.1 Cyllid Myfyrwyr – Grantiau/Benthyciadau Ffioedd Dysgu**

- 9.1.1 Rhaid i fyfyrwyr Addysg Uwch llawn amser a myfyrwyr Addysg Uwch rhan-amser blwyddyn gyntaf sy'n derbyn cymorth ariannol ddarparu copi o'u llythyr hysbysiad ariannol wrth gofrestru. Mae'r hysbysiad yn nodi'r cyfraniad a dalwyd gan CMC/CBM tuag at ffioedd dysgu myfyriwr. Mae angen talu unrhyw ffioedd sy'n weddill naill ai'n llawn neu drwy randaliadau, yn dibynnu ar y swm.
- 9.1.2 Mae angen i fyfyrwyr rhan-amser parhaus sy'n gwneud cais am gymorth ariannol ddod â'u ffurflen gais PTG1 wedi'i chwblhau'n rhannol gyda nhw i gofrestru (bydd y Coleg yn llenwi Adran 6 o'r ffurflen hon). Yn dilyn cais, rhaid i fyfyrwyr ddarparu copi o'r hysbysiad ariannol i'r coleg o fewn 60 diwrnod ar ôl cofrestru. Mae hwn yn nodi swm y grant ffioedd y bydd y myfyriwr yn ei dderbyn. Rhaid i unrhyw ffioedd sy'n weddill naill ai gael eu talu'n llawn neu drwy randaliadau, yn dibynnu ar y swm. Bydd methu â darparu'r hysbysiad ariannol o fewn y 60 diwrnod yn golygu y bydd yn rhaid i'r myfyriwr dalu am y ffi dysgu lawn.

### **9.2 Noddwyr**

- 9.2.1 Os bydd noddwr yn talu'r ffioedd, rhaid i'r dysgwr ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig wedi'i ardystio gan y noddwr wrth gofrestru. Os bydd y noddwr yn gwrthod talu'n nes ymlaen, bydd rhaid i'r dysgwr dalu am unrhyw ffioedd sy'n weddill. Bydd gan noddwyr 30 diwrnod ar ôl dyddiad yr anfoneb i dalu. Os, ar ôl 30 diwrnod arall, bydd y noddwr yn dal heb dalu/wedi gwrthod talu, bydd y myfyriwr yn derbyn anfoneb. Ni gynigir rhandaliadau i Noddwyr Dysgwyr Addysg Uwch.

### **9.3 Ad-daliadau/Addasiad i Ffioedd yn sgil Tynnu'n Ôl**

- 9.3.1 Mae'r coleg yn cydnabod, ar ôl cofrestru, efallai y bydd dysgwyr yn dymuno peidio â dilyn eu hastudiaeth am amryw o resymau, nad oeddent o bosibl yn amlwg cyn cofrestru. Mewn cydnabyddiaeth o hyn, bydd gan fyfyrwyr sy'n tynnu'n ôl o fewn pythefnos i ddechrau eu cwrs hawl i ad-daliad llawn o ffioedd yn amodol ar unrhyw dystiolaeth o dwyll neu weithredoedd anghyfreithlon neu ddyledion eraill sydd heb eu talu i Goleg Cambria.
- 9.3.2 Os bydd myfyrwyr yn tynnu'n ôl ar ôl y pythefnos cyntaf, mae eu hatebolrwydd i dalu ffioedd yn dibynnu ar statws eu ffioedd, rheoliadau eu prifysgol ryddfreniol a'r dyddiad tynnu'n ôl. Cynghorir dysgwyr i wirio eu hatebolrwydd gwirioneddol gyda'r coleg/prifysgol ryddfreniol.
- 9.3.3 Cyfrifoldeb y dysgwr yw sicrhau eu bod yn cael eu tynnu'n ôl o'r rhaglen, drwy lenwi ffurflen tynnu'n ôl gyda thiwtor y cwrs. Gan fod y ffi a godir yn dibynnu ar y dyddiad presenoldeb diwethaf, dylid rhoi sylw penodol i'r dyddiad tynnu'n ôl.
- 9.3.4 Dylai ceisiadau am ad-daliad fod yn ysgrifenedig i'r Adran Gyllid, Coleg Cambria neu i'r brifysgol bartner os telir ffioedd yn uniongyrchol.

- 9.3.5 Dim ond i'r talwr ffioedd gwreiddiol y bydd ad-daliadau ffioedd dysgu yn cael eu gwneud. Os bydd ffioedd wedi'u talu gan riant, priod, partner, noddwr neu gyflogwr, yna bydd yr ad-daliad yn cael ei wneud i'r talai perthnasol.
- 9.3.6 Ni fydd gan ddysgwyr sydd wedi cymryd benthyciad ffioedd dysgu hawl i gael ad-daliad yn uniongyrchol gan y Coleg. Bydd Coleg Cambria yn hysbysu'r CMC/CBM o atebolrwydd ffioedd dysgu'r myfyriwr a bydd y CBM yn diwygio atebolrwydd benthyciad ffioedd dysgu'r dysgwr yn unol â hynny.

#### **9.4 Peidio â thalu ffioedd cwrs**

- 9.4.1 Efallai y gofynnir i ddysgwyr nad ydynt yn talu ffioedd eu cwrs adael eu cwrs. Gall methu â thalu unrhyw daliadau a godir ar ddysgwyr gan y Coleg am unrhyw nwyddau neu wasanaethau a ddarperir arwain at achos llys er mwyn adennill y symiau sy'n ddyledus. Gellir trosglwyddo dyledion i asiantaeth adennill dyledion eu casglu.
- 9.4.2 Gall methu â thalu ffioedd cyrsiau hefyd arwain at wahardd myfyrwyr o arholiadau hyd nes y telir yr holl ffioedd sy'n ddyledus.

#### **9.5 Cyrsiau Masnachol**

- 9.5.1 Rhaid i unigolion dalu ffioedd cwrs wrth archebu lle ar y cwrs dan sylw.
- 9.5.2 Nid oes unrhyw gynlluniau dileu ffioedd na rhandaliadau ar gael ar gyfer cyrsiau masnachol.
- 9.5.3 Os bydd lle ar gwrs yn cael ei ganslo 10 diwrnod ar ôl y dyddiad cychwyn, ni fydd y Coleg yn gallu ad-dalu'r ffi.

#### **9.6 Canslo/aildrefnu cyrsiau**

- 9.6.1 Os bydd y Coleg yn canslo cwrs, neu os nad yw'r cwrs yn dechrau oherwydd bod maint y grŵp yn anymarferol, gwneir pob ymdrech i gynnig dewis arall. Os nad oes dewis arall addas ar gael, rhoddir ad-daliad llawn.
- 9.6.2 Os bydd y Coleg yn aildrefnu cwrs ar gyfer amser, diwrnod neu safle gwahanol a bod hynny'n anghyfleus i'r dysgwr, rhoddir ad-daliad llawn.
- 9.6.3 Ni roddir ad-daliad am newid tiwtor.